COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD O BELL TRWY TEAMS AR DYDD IAU, 21 TACHWEDD 2024 10:00

Presennol yn Rhithwir

Y Cynghorydd T Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | RM Granville | M L Hughes | RM James |
| I M Spiller | G Walter | E D Winstanley | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Ford
Rachel Keepins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Laura Griffiths | Rheolwr y Grŵp–Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

## 17. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025/26

<table>
<tr><td>Y penderfyniad a wnaed</td><td>Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol am flwyddyn ddinesig 2025/26.<br><br>Cafwyd trafodaethau ynglŷn â'r agweddau canlynol a grybwyllwyd yn yr adroddiad:<br><br>• Roedd gwaith Cynghorydd yn seiliedig ar asesiad o wythnos 3 diwrnod. Cynhaliwyd yr asesiad yn 2021 ac efallai y bydd angen ei adolygu o fewn y patrymau gwaith presennol.<br>• Mwy o arweiniad i gael ei roi ar rannu swyddi.<br>• Teimlai'r aelodau nad oedd y Panel presennol yn adlewyrchu amrywiaeth a hoffent roi'r sylw dyledus a'r ddealltwriaeth fod cynghorau'n gweithredu mewn cymunedau amrywiol.<br>• Nid oedd digon o wybodaeth ar wefan IRPW a hoffai aelodau i wybodaeth atodol fod ar gael yn rhwydd.<br>• Gofynnodd aelod am eglurder ynghylch tâl aelodau'r Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu.<br>• Hoffai'r Aelodau gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r modd y byddai Comisiwn newydd Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn arfer swyddogaethau'r Panel wrth symud ymlaen.<br>• Awgrymodd yr Aelodau y dylid anfon llythyr at y Cadeirydd yn mynegi eu diolch am y gwaith a wnaed gan y Panel blaenorol.<br>• Cytunai aelod â sylwadau'r Dirprwy Arweinydd a wnaed yn ystod cyfarfod blaenorol ynghylch diffyg tâl i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r BGC. Hoffai'r aelodau i hyn gael ei godi gan eu bod yn teimlo bod y byrddau'n ymgymryd â llawer iawn o waith.<br><br><u>PENDERFYNWYD :</u> Nododd y pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'i drafod. Cytunwyd i gyflwyno ymateb ynghylch Adroddiad Blynyddol Drafft yr IRPW am 2025/26. Roeddent yn cytuno y dylid cyflwyno unrhyw ymateb gan y Pwyllgor i'r IRPW ac i CLILC erbyn y dyddiad cau sef 29 Tachwedd 2024.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad gwneud y penderfyniad</td><td>21/11/2024</td></tr>
</table>

## 18. Blaenraglen Waith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor gael ei ystyried a'i ddatblygu ymhellach.<br>Gwahoddodd yr aelodau i gynnig eu hawgrymiadau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol a soniodd hefyd fod Gweithgor y Porth yn parhau a gofynnodd i'r aelodau fynegi diddordeb pe baent yn dymuno bod yn rhan o'r grŵp.<br><br>Holodd yr aelodau ynghylch diweddariad ar gynnydd gan Weithgor y Porth a chytunwyd bod hyn i'w ddisgwyl yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ym mis Mehefin 2025.<br><br>**PENDERFYNWYD :** Bu'r Aelodau yn ystyried y Flaenraglen Waith ddrafft arfaethedig ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd oedd ynghlwm yn Atodiad A, a rhoddasant sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer eitemau pellach i'r Pwyllgor eu hystyried yn ei gyfarfodydd yn y dyfodol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/11/2024 |

## 19. Diweddariad ar y Rhaglen Datblygu Aelodau

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad, a'i ddiben oedd:<br><br>a) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gyflawni Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Cyngor a gweithgareddau cysylltiedig.<br><br>b) Gofyn i'r Pwyllgor nodi unrhyw bynciau pellach i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau.<br><br>• Awgrymodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol anfon nodyn atgoffa at yr holl Aelodau yn pwysleisio pwysigrwydd cwblhau modiwlau e-Ddysgu. Awgrymwyd codi hyn hefyd yng nghyfarfod nesaf yr Arweinwyr Grwpiau fel y gallent annog eu haelodau i gwblhau hyfforddiant.<br><br>• Hoffai aelodau archwilio'r gallu i roi'r ffaith fod hyfforddiant wedi cael ei gwblhau ar y wefan er mwyn sicrhau tryloywder gyda'r cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| | • Trefnu sesiynau 'galw heibio' pellach i gynorthwyo Aelodau i gwblhau modiwlau e-Ddysgu.<br>• Nodi'n glir a oedd sesiynau'n orfodol – byddai'n well gan yr Aelodau weld gwahaniaeth yn cael ei wneud rhwng pa sesiynau datblygu a sesiynau e-Ddysgu oedd yn orfodol a pha rai yn ddewisol, gan eu bod weithiau wedi dilyn cyrsiau tebyg o fewn eu cyflogaeth yr oeddent yn ei ystyried yn ddyblygu os oedd yn rhaid iddynt gwblhau cyrsiau CBSP hefyd.<br><br>• Roedd y nodiadau atgoffa ar gyfer hyfforddiant Datblygu Aelodau ac e-Ddysgu yn rhy gyffredinol, gofynnodd yr aelodau am iddynt fod yn fwy penodol.<br><br>• Dywedodd yr aelodau yr hoffent gael briff ar sefyllfa bresennol cais Mod.Gov a gofynasant am i ragor o sesiynau gael eu cyflwyno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl aelodau cyn y dyddiad 'mynd yn fyw'.<br><br>• Gwnaed awgrymiadau ar gyfer cynnal sesiynau datblygu yn y dyfodol i addysgu aelodau ynghylch gwrth-eithafiaeth, lleiafrifoedd, ideolegau eithafol, DWP ar gostau byw a sesiynau gwybodaeth gyda V2C.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r adroddiad a'r atodiadau. Nodwyd pynciau datblygu Aelodau ychwanegol a sesiynau briffio i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau a gwnaethant awgrymiadau ar gyfer cwblhau a thryloywder ynghylch y Dysgu a Datblygu a gyflawnwyd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/11/2024 |

## 20. Cefnogaeth Ymchwil a Gwasanaethau I Gynghorwyr - Protocol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad i ddiweddaru'r aelodau ynghylch y cymorth ymchwil sydd ar gael i Aelodau Etholedig ar hyn o bryd ac i ofyn am gyfarwyddyd ar gyfer datblygu Protocol Cymorth Ymchwil a Gwasanaethau ar gyfer Aelodau Etholedig.<br><br>Dywedodd fod asesiad cychwynnol a wnaed wedi'i atodi yn Atodiad A, a gwahoddodd farn yr aelodau am ffordd y gellid llunio protocol ar y cyd. Pwysleisiodd er bod gan rai awdurdodau lleol swyddogion ymchwil penodedig oedd yn cynnal ymchwil allanol fanwl i aelodau, bod gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr gyfyngiadau ar adnoddau a chapasiti. Dywedodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, er nad |

| | |
|---|---|
| | oedd y canllawiau statudol wedi cael eu darparu yn nogfennau'r cyfarfod, y gellid darparu hyn pe bai angen.<br><br>Gwnaeth yr aelodau y sylwadau a ganlyn a thrafodwyd:<br><br>• Byddent yn hoffi i fwy o wybodaeth ariannol a chyllidebol gael ei rhannu. Nodwyd mai dim ond yr aelodau hynny ar BREP oedd yn cael y fraint o dderbyn y wybodaeth.<br>• Soniodd yr aelodau nad oedd yn hawdd dod o hyd i wybodaeth ar y Porth presennol<br>• Nododd Aelod fod yr Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol yn gyfleuster adnoddau defnyddiol iawn i Gynghorwyr ond ei fod, mae'n debyg, yn gostus. Awgrymwyd y dylid ystyried cost / budd.<br>• Awgrymwyd anfon e-bost / gwybodaeth fisol yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adnoddau a'r wybodaeth oedd ar gael iddynt i'w defnyddio ac y byddai'n ddefnyddiol eu cyfeirio.<br><br>**PENDERFYNWYD :** Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad fel sail ar gyfer datblygu Protocol Cymorth Ymchwil a Gwasanaethau ar gyfer Aelodau Etholedig gan gynnwys yr asesiad cychwynnol oedd ynghlwm yn Atodiad A. Rhoddasant awgrymiadau a sylwadau ar y modd y gellid gwneud gwybodaeth yn haws ei chael i Aelodau, i'w hystyried a'u cynnwys yn y Protocol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/11/2024 |

## 21. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/11/2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55